Adroddiad i'r	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (BGC)
Dyddiad y cyfarfod	Dydd Mercher 23 Mawrth, 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Graham Boase, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych
Awdur yr adroddiad	Nicola Kneale, Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol CSDd a Shannon Richardson, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Datblygu Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r casgliadau o'r gweithdy BGC Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ddydd Llun 31 Ionawr, lle y cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad Lles a manylion ynghylch yr heriau oedd yn codi. Yna, cafwyd trafodaeth grŵp i ddehongli 'Sut mae'r BGC yn deall y berthynas (a gwir achosion) rhwng yr heriau hyn?'.

1.2. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar broses y camau nesaf ar gyfer y BGC wrth ddatblygu Cynllun Lles y BGC, ac mae'n ceisio rhesymoli'r nifer o flaenoriaethau yn unol â lle y credir y mae modd ychwanegu'r mwyaf o werth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod gofyniad statudol ar bob BGC i lunio Cynllun Lles Lleol ar gyfer eu hardal. Rhaid i'r Cynllun Lles Lleol nodi sut mae'r BGC yn bwriadu gwella elfennau economaidd, cymdeithasol,

amgylcheddol a lles diwylliannol ei ardal, drwy osod amcanion lleol a fydd yn gwneud y gorau o'r cyfraniad a wneir gan y bwrdd i gyflawni nodau lles yn ei ardal.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod y BGC yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn gan gynnwys y materion na drafodwyd fel rhan o'r gweithdy BGC fis Ionawr, a'r atodiadau;

3.2. Bod y BGC yn ystyried beth fydd y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, argymhellir bod aelodau'r BGC yn cytuno i ganolbwyntio ar uchafswm o 3 blaenoriaeth yn eu dull arweinyddiaeth.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Lles Lleol cyn pen blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r Asesiad Lles. Felly, rydym yn gweithio tuag at ddyddiad cau arfaethedig ym mis Mawrth / Ebrill 2023 ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Lles Lleol.

4.2. Yn seiliedig ar y drafodaeth yn ystod y gweithdy ar 31 Ionawr, daeth pedwar maes blaenoriaeth i'r amlwg. Mae'r swyddogion wedi ystyried y drafodaeth er mwyn nodi'r achosion craidd, perthnasoedd a dylanwad / rheolaeth y BGC (Gweler Atodiad A).

4.3. Ystyrir mai adran dylanwad a rheolaeth y dadansoddiad (Atodiad A) yw'r bwysicaf er mwyn rhoi ystyriaeth ddigonol i sut y gall y BGC ychwanegu'r gwerth gorau a chael dylanwad cryf ar bobl o fewn pob thema. Gallai blaenoriaethu'r adran hon arwain at ganlyniad ar y themâu sydd fwyaf addas i'w datblygu fel blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

4.4. Dyma'r pedwar maes blaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg yn y drafodaeth:

1. Tlodi, amddifadedd ac anghydraddoldeb
2. Swyddi, uwchsgilio ac uchelgeisiau pobl ifanc
3. Tai – fforddiadwyedd a gwydnwch
4. Capasiti ymchwil ac ymgysylltu

4.5. Nodwyd nifer o heriau pwysig o fewn yr Asesiad Lles na ystyriwyd yn y drafodaeth yn y gweithdy BGC. Teimlai'n berthnasol gofyn i aelodau'r BGC ailystyried y materion hyn cyn gwneud penderfyniad ynghylch y blaenoriaethau terfynol ar gyfer y dyfodol.

4.6. Ni thrafodwyd y materion canlynol:

1. Economi werdd e.e. Cymunedau sy'n wydn yn wyneb newid hinsawdd, yn gwarchod bioamrywiaeth a sectorau economaidd gwydn sy'n cefnogi diwylliant, natur a threftadaeth.
2. Seilweithiau digidol dibynadwy
3. Heneiddio a heneiddio'n dda
4. Naws am le a hunaniaeth ddiwylliannol e.e. cymunedau diogel a deniadol

4.7. Yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr o'r rhwydwaith Cyd-gynhyrchu, rydym wedi datblygu cynllun i amlinellu'r camau nesaf a dull arfaethedig i ddatblygu Cynllun Arwain Lles BGC (Gweler atodiad B). Mae'r cynllun yn amlinellu'r prif ystyriaethau ar gyfer aelodau BGC wrth iddynt feddwl am ddatblygiad y cynllun yn yr hirdymor. Un newid allweddol i'r Cynllun Lles blaenorol yw cynnwys adran sy'n amlinellu'r dull o ymgysylltu, a'r pwyslais ar gyd-gynhyrchu cynnwys y cynllun â chymunedau a phartneriaid.

5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1. Caiff y Cynllun Lles ei ddatblygu yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r Asesiad Lles, sydd wedi ei rannu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus trwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth 2022. Yn ychwanegol, cyflwynwyd y cynllun i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych fis Chwefror i'w adolygu, fel rhan o'r broses ymgynghori ac er mwyn ceisio argymhellion gan y Pwyllgor o ran ei gynnwys a'r canfyddiadau.

5.2. Ar ôl i'r BGC gymeradwyo'r Cynllun Lles, bwriedir cynnal yr ymgynghoriad 12 wythnos Statudol rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022.

6. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1. Mae risg bod diffyg dylanwad neu reolaeth gan y BGC o ran yr amcanion a ddewiswyd. Caiff y risg ei lliniaru wrth i'r BGC feithrin dull arweinyddiaeth gan y cydnabyddir y prinder yn adnoddau'r BGC.

6.2. Mae risg bod blaenoriaethau'r BGC yn dyblygu gwaith parhaus sefydliadau eraill. Mae'n bwysig felly i weithio'n agos â phartneriaid a budd-ddeiliaid i nodi sut y gallai rôl arweinyddiaeth y BGC ychwanegu'r gwerth gorau.

7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015